# Pennod 4: Agweddau tuag at y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae busnesau bwyd yn cael sticer sy'n dangos eu sgôr hylendid bwyd. Yn Lloegr, caiff busnesau eu hannog i arddangos eu sticer sgôr hylendid bwyd yn eu safleoedd, ond yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr yn ôl y gyfraith (footnote 1).

## Barn am y gofyniad i arddangos sgoriau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw'n meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd, neu a ddylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd 93% yn meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd, ac roedd 4% yn meddwl y dylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio. Roedd y canfyddiad hwn yn debyg ar draws y tair gwlad; roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yng Nghymru (95%), Lloegr (93%) a Gogledd Iwerddon (91%) yn meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd** (footnote 2).


Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oedden nhw'n meddwl y dylai gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos ei sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, roedd 95% yn meddwl y dylai gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos ei sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd, ac nid oedd 1% yn meddwl hynny. Roedd y canfyddiad hwn yn debyg ar draws Cymru (94%), Lloegr (95%) a Gogledd Iwerddon (93%)** (footnote 3).

### Barn am y man lle y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd

## Figure 19. Locations where respondents think food hygiene ratings should be displayed.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| Location | Food Hygiene rating |
|---|---|
| Takeaway's own website | 94 |
| Restaurants or caf?'s own website | 94 |
| Hotels or B and Bs own website | 93 |
| Food ordering/delivery companies' apps/websites | 92 |
| Supermarket's own website | 83 |
| Food Business's social media site | 82 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymhle y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd, gan ddewis o blith rhestr o leoliadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn meddwl y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau siopau tecawê (94%), bwytai neu gaffis (94%), ar wefannau gwestai neu lety gwely a brecwast (94%), ar wefannau neu apiau cwmnïau archebu a dosbarthu bwyd (92%).  Roedd tua 8 o bob 10 o ymatebwyr o'r farn y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau archfarchnadoedd (83%) ac ar wefannau cyfryngau cymdeithasol busnesau bwyd (82%) (Ffigur 19) (footnote 4).

1. Cyflwynwyd deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol arddangos sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn safleoedd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 ac yng Ngogledd Iwerddon ym mis Hydref 2016.

2. Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylai fod yn ofynnol gan y gyfraith i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd, neu a ddylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio? Ymatebion: Dylai fod rhaid iddyn nhw eu harddangos, Dylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4350, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio'r rheiny 'heb nodi'.

3. Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylai gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos ei sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd? Ymatebion: Ydw, Nac ydw, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4347, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

4. Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylid arddangos y sgoriau hylendid… Ar apiau a gwefannau cwmnïau archebu a dosbarthu bwyd sy'n caniatáu i chi archebu bwyd o fwytai a siopau tecawê lleol amrywiol? / Ar gyfryngau cymdeithasol busnes bwyd? / Ar wefan bwyty neu gaffi? / Ar wefan siop tecawê? / Ar wefan gwesty neu lety gwely a brecwast? / Ar wefan archfarchnad? Sylfaen = 4755, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur Bwyta Allan drwy'r post.